

# GWELLA'R BROSES O DDARPARU GOFAL I GLEIFION AG ANABLEDD DYSGU YN YR YSBYTY

Roedd NCEPOD wedi adolygu gofal oedolion ag anabledd dysgu wedi'i ddiagnosisio a fynychodd/ a gafodd eu derbyn i'r ysbyty mewn argyfwng rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2024. Adolygwyd y gofal gan ddefnyddio 366 set o nodiadau achos, 666 holiadur clinigwyr, 144 holiadur gofal sylfaenol, 199 holiadur sefydliadol, 832 ymateb i arolwg gan weithwyr gofal iechyd, ac 82 arolwg cleifion/ gofaluwr.

## Defnyddiwch y derminoleg gywir.

Nid yw **ANABLEDD DYSGU** ac **ANHAWSTER DYSGU** yr un fath, ac nid yw defnyddio 'LD' yn glir ac yn ddefnyddiol.

Disgrifiwyd 119/366 (32.5%) o gleifion fel rhai ag anhawster dysgu yn hytrach nag anabledd dysgu, ac mae'r ddau derm yn aml yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol.

### ANABLEDD DYSGU

Nam sylweddol ar weithrediad deallusol a chymdeithasol, sy'n datblygu cyn bod yn oedolyn



### ANHAWSTER DYSGU

Ffordd y mae person yn dysgu sgiliau penodol neu'n prosesu gwybodaeth

## Cofnodwch anabledd dysgu unigolyn yn gywir yn y cofnod claf electronig/ nodiadau clinigol ac ar gofstrau anabledd dysgu.

Dywedodd 175/196 (89.7%) o sefydliadau eu bod yn defnyddio rhybuddion neu faneri ar gofnodion cleifion electronig. Fodd bynnag, dim ond 310/583 (53.2%) o gleifion oedd â rhybuddion o'r fath.



## Aseswch a gweithredu addasiadau rhesymol ar gyfer cleifion ag anabledd dysgu – yn rhagweithiol lle bo modd.

Dim ond 292/666 (43.8%) o gleifion a/neu eu gofaluwr a ofynnwyd a oedd angen addasiadau rhesymol yn ystod eu harhosiad.



Roedd addasiadau rhesymol yn fwy tebygol os oedd rhybudd ar gofnod y claf.

## Defnyddiwch offer cefnogi penderfyniadau i helpu gweithwyr gofal iechyd i asesu galluedd meddyliol cleifion ag anabledd dysgu.

Dylai 121/229 (52.8%) o gleifion na chawsant asesiad ffurfiol fod wedi cael un.

Dim ond 169/277 (61.0%) o weithwyr gofal iechyd a ddywedodd eu bod yn hyderus wrth gynnal asesiadau galluedd meddyliol mewn cleifion ag anabledd dysgu.



## Cynhwyswch bobl ag anabledd dysgu yn eu gofal yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty.

Roedd 200/366 (54.6%) o gleifion yn rhan o benderfyniadau ynghylch eu gofal mewn lleoliadau aciwt, ac mewn 148/353 (41.9%) o achosion nid oedd yn claf na gofaluwr y claf yn rhan o'r broses rhyddhau.



41.9% o gleifion/gofaluwr yn cael eu cynnwys yn y broses rhyddhau

54.6% o gleifion yn cael eu cynnwys yn ystod eu harhosiad



## Comisiynwch wasanaethau anabledd dysgu cyfartal mewn ysbytai aciwt.

Dim ond 35/186 (18.8%) o wasanaethau anabledd dysgu yn amlddisgyblaethol, 69/186 (37.1%) yn un proffesiwn, ac 82/186 (44.1%) yn un person yn unig.


### Tîm amlddisgyblaethol



11/186 (5.9%) o wasanaethau anabledd dysgu yn amlddisgyblaethol



Tîm un proffesiwn



Un person